

Canllawiau i Ymgeiswyr: Teithiau Hamdden



Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision iechyd a llesiant teithiau grŵp. Rydym yn deall bod tripiâu yn dod â manteision sylweddol o ran ansawdd bywyd i rai aelodau o'r gymuned – gan leihau unigrwydd ac unigedd cymdeithasol – yn enwedig mewn cymunedau lle mae dewisiadau cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig. Maent yn helpu pobl hŷn yn benodol i gyfarfod a chymdeithasu gyda'i gilydd, gan adeiladu ysbryd cymunedol a chysylltiadau cyfeillgarwch. Gellir ystyried ceisiadau sy'n cynnwys cost teithiau ar gyfer dyfarniadau grant y Gronfa Grantiau Bychain. Fel arfer, ni fyddai unrhyw grant a ddyfernir yn fwy na £1,000.

Yn eu cynigion, mae angen i grwpiau ddangos:

1. eu bod wedi meddwl yn ofalus am gyrchfannau teithiau ac yn gallu dweud wrthym sut y byddai aelodau'r grŵp yn elwa
2. bod aelodau'r grŵp wedi trafod opsiynau ac wedi cytuno gyda'i gilydd ar y dewis o daith
3. eu bod wedi costio holl elfennau'r daith yn ofalus - yn cynnwys cludiant ac unrhyw gostau eraill
4. bod croeso i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn y gweithgaredd i wneud hynny oni bai bod rhesymau da pam nad yw hyn yn bosibl.

Gallwch weld Polisi Cyfle Cyfartal y Gronfa Gymunedol ei hun www.penycymoedd.cic.cymru

Rydym yn cydnabod y gall prosiectau a gweithgareddau da weithiau gael eu gwireddu drwy ddyfarnu symiau cymharol fach o arian ar yr adeg gywir ac ar sail untro. Fel arfer, byddem yn annhebygol o ariannu teithiau cymdeithasol tebyg o fewn cyfnod o 3 blynedd – ond rydym bob amser yn annog ymgeiswyr i siarad â ni.

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd y cais yn llwyddiannus – arwydd ydyw yn unig o rhai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.